

Adolygiad o fudiad yr undebau credyd yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

cynhyrchwyd gan

Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd

ar ran

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Hydref 2009

Rhagarweiniad

Tyfodd mudiad yr undebau credyd yng Nghymru yn sylweddol yn ystod y degawd diweddaf, yn bennaf o ganlyniad i wyth mlynedd o fuddsoddi cyson gan awdurdodau gwleidyddol Cymru ac Ewrop oedd yn werth mwy nag £8m i gyd. Bellach mae gan bob tref a phentref yng Nghymru undeb credyd i'w wasanaethu a gall pob dinesydd yng Nghymru ymuno ag o leiaf un undeb credyd naill ai o fewn eu cymuned (daearyddol neu gymuned o ddiddordeb) neu yn eu man gwaith.

O'r flwyddyn 2000 ymlaen, tyfodd nifer aelodau'r undebau credyd yng Nghymru fwy nag 16% y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn 2000 roedd ganddynt tuag 11,000 o aelodau ond erbyn hyn mae mwy na 43,000 o oedolion yn perthyn i undeb credyd. Mae 7,682 o bobl ifanc yn gynilwyr yn yr undebau credyd hefyd.

Ond, er i'r nifer godi, eto i gyd mae canran poblogaeth Cymru sy'n aelod o undeb credyd yn dal i fod yn isel, yn yr un modd ag y mae yn Lloegr ac yn yr Alban. Yng Nghymru mae 1.82% o'r boblogaeth yn aelod o undeb credyd, 0.94% yw'r canran yn Lloegr ac mae 5.58% o boblogaeth yr Alban yn aelod o undeb credyd.

Bydd nifer yr aelodau yn ffactor allweddol yn llwyddiant a hunanddibyniaeth mudiad yr undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae ein hymchwil yn amlygu mor hanfodol bwysig yw bod undebau credyd yn recriwtio aelodau o gefndiroedd eang ac economaidd wahanol ym mhob rhan o Gymru. Mae angen i bobl eu hystyried yn sefydliadau ariannol cydweithredol sydd yno i bawb.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai mudiad yr undebau credyd yng Nghymru osod targed o fod â 6% o'r boblogaeth yn aelodau erbyn 2020.

Yn ystod y degawd diwethaf, gwelwyd maint asedau'r undebau credyd yn codi'n gyson hefyd. Ond mae cyfran yr asedau hyn sydd ar fenthwyg i'r aelodau yn gostwng, â nifer fawr iawn o'r undebau credyd yn benthwyca ar lefelau sydd heb fod yn ddigonol i sicrhau eu cynladwyedd ariannol yn y tymor hir. Bydd angen i undebau credyd ddatblygu ffyrdd hyblyg a chyfrifol o fenthwyca fydd yn galluogi eu haelodau i gael mynediad i'r benthwyciadau y maent am eu cael ac sydd eu hangen arnynt ar bris y gallant ei fforddio.

Ehangu'r Gwasanaethau

Ar yr ochr gadarnhaol, bu llawer o'r undebau credyd yng Nghymru wrthi'n datblygu portffolios eu cynhyrchion a'u gwasanaethau mewn ymateb i anghenion eu haelodau a defnyddwyr yn gyffredinol. Erbyn hyn mae llawer o undebau credyd yn cynnig amrywiaeth o gyfrifon cynilo gwahanol, Cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, 'benthwyciadau fforddiadwy cyflym' a benthwyciadau sy'n seiliedig ar gyfraddau llog hyblyg sydd wedi'u hasesu i adlewyrchu'r costau a'r risgiau amrywiol sydd ynghlwm wrth roi benthwyg i aelodau gwahanol. Mae undebau credyd eraill yn edrych ar opsiwn cyflwyno Cyfrif Cyfredol yr Undeb Credyd a/neu gardiau debyd rhagdaledig.

Gallai datblygiadau i'r mudiad yn y dyfodol elwa drwy ehangu'r ystod wasanaethau, er enghraifft 'Cyfrifon y Porth Cynilo' a thrwy wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau i adalu drwy gardiau talu electronig (megis Pay Point).

Yn gyffredinol, roedd yr ymchwil yn cadarnhau ymrwymiad yr undebau credyd yng Nghymru i wasanaethu cymunedau incwm isel ac i fynd i'r afael ag eithrio ariannol. Mae 14 undeb credyd yng Nghymru wedi gweithredu contractau Cronfa Twf Cynhwysiant Ariannol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynorthwyo pobl sydd wedi'u heithrio'n ariannol yn eu cymunedau; gwerth y contractau hyn ym mis Mehefin 2009 oedd £3,686,172.

Mae ymwneud â'r Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol, fodd bynnag, yn gosod heriau arbennig i'r undebau credyd, sef galwadau gweinyddu a rheoli newydd, defnyddio systemau newydd a datblygu sgiliau newydd wrth weithio gyda gofynion aelodau newydd.

Mae gweithio yn yr ysgolion wedi helpu'n sylweddol i godi proffil mudiad yr undebau credyd ac mae'r gweithgaredd hwn yn boblogaidd yn wleidyddol, er ei fod yn dipyn o draul ar amser gweithwyr y mudiad.

Bydd partneriaethau gwaith gyda Swyddfa'r Post, y rhwydwaith Pay Point, cymdeithasau tai ac ysgolion yn allweddol o ran twf a phrif-ffrydio undebau credyd yn ystod y degawd nesaf.

Iechyd Ariannol, Llywodraethu Sicr a Rheoli Effeithiol

Y ddau ddimensiwn allweddol a adnabuwyd o ganlyniad i brofiad yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n cyfrannu i iechyd ariannol undeb credyd yw llywodraethu sicr a rheoli cryf, effeithiol. Dyma'r graig sy'n cynnal disgyblaeth ariannol, effeithlonrwydd gweithredol, polisïau a gweithdrefnau cadarn, a modelau busnes sy'n targedu twf cynaliadwy.

Yn ystod cyfnod yr astudiaeth ymchwil hon, roedd pob undeb credyd yng Nghymru yn sefydliadau ariannol solfent ac roedd ganddynt werth net positif; roedd gan y rhan fwyaf ohonynt (91%) ddarpariaethau da neu ddigonol i ymdopi â dyledion gwael, ond roedd lefel y benthyciadau tramgwyddus a'r dyledion gwael yn uchel yn llawer o'r undebau credyd ac roedd yn ymddangos bod y rhain ar gynydd, oherwydd y dirwasgiad presennol o bosib.

Roedd y gymhareb gostau i incwm yn dda yn yr undebau credyd a ddadansoddwyd yn yr astudiaeth (roedd gan 68% incwm net positif yn 2007), ond mewnbyn staff gwirfoddol uchel oedd yn gyfrifol am hyn yn aml, ac mae'n bosib na fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae gwendidau ar lefel y bwrdd ac ymhlith y rheolwyr yn rhai o'r undebau credyd, a gallai'r gwendidau amharu ar eu gallu i arfer 'diwydrwydd dyladwy' wrth wneud eu gwaith. Nodwyd gennym fod angen i gyfarwyddwyr a rheolwyr undebau credyd gael hyfforddiant o safon uchel iddynt gael cyflawni eu rolau'n effeithiol yn arweinwyr strategol ac yn rheolwyr da.

Bydd yn hanfodol gwella'r perfformiad yn y maes allweddol hwn os yw'r sector yn mynd i dyfu ac i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd modd sicrhau hyn drwy gyfuniad o hyfforddiant gwell, recriwtio unigolion newydd, mwy strategol eu meddylfryd i rolau allweddol, a defnyddio cyngor arbenigwyr ar faterion megis uno.

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Canfuwyd gennym fod yr undebau credyd yn wynebu dau dyndra o ran eu datblygiad a'u twf yn y dyfodol: tyndra rhwng eu rôl yn fusnes cydweithredol a'u 'cenhadaeth', sef cynnig gwasanaethau ariannol i'r aelodau hynny o'r gymdeithas sydd wedi'u cau allan o wasanaethau ariannol a bancio prif-ffrwd; a'r tyndra rhwng yr awydd i foderneiddio a dod yn fwy proffesiynol a sicrhau gwasanaeth personol o safon yn y gymuned.

Adnabuodd ein hastudiaeth y ffactorau llwyddiant allweddol canlynol ar gyfer yr undebau credyd yng Nghymru:

- Lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng yr undebau credyd a'u cymunedau lleol;
- Lefel yr aelodaeth yn uchel o'i chymharu â maint y cwlwm cyffredin;
- Ffocws ar fenthycu arian yn ogystal ag ar dderbyn adneuo;
- Dull strategol sy'n canolbwyntio ar nodau wrth ystyried datblygiad polisi, er enghraifft SGEIs, sy'n cymryd amcanion busnes yr undeb credyd ei hun i ystyriaeth;
- Agweddau proffesiynol ac entrepreneuraidd ymhlith rheolwyr yr undebau credyd;
- Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol, lle mae'n bosib ei gael, a allai helpu hefyd i fod yn gefn i lwyddiant yr undeb credyd.

Gellid codi lefel eu heffeithlonrwydd hefyd drwy ddatblygu a rhannu adnoddau TG sy'n hollol weithredol ac y gallai pob un o'r undebau credyd yng Nghymru ei fforddio.

Mewn gwirionedd, daeth yn amlwg y byddai mwy o gydweithredu rhwng yr undebau credyd yn ffactor allweddol yn natblygiad yr undebau credyd yn y dyfodol ac mae'n ymddangos er mwyn cyflawni darvoudion maint y bydd rhaid trefnu llawer elfen gefnswyddfa undeb credyd ar y cyd. Oherwydd y gost, mae'n bosib y bydd rhaid trefnu'r gwasanaethau cefnswyddfa hyn ar lefel Brydeinig yn hytrach nag ar lefel un wlad.

Sylwyd gennym nad oes hunaniaeth unedig Gymreig gan yr undebau credyd, ac rydym yn awgrymu y dylid datblygu logo a lliw adnabyddadwy ynghyd ag ymgyrch ar draws Cymru i roi cyhoeddusrwydd i'r hunaniaeth newydd hon y bydd yr undebau credyd yn ei rhannu.

Adroddiad o waith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fudiad yr undebau credyd yng Nghymru yw'r adroddiad hwn. Amcanion yr astudiaeth oedd ymchwilio i broffil, gweithredu, llywodraethu, strwythurau cymorth, perfformiad a gwasanaethau presennol a datblygiad a chynnaladwyedd undebau credyd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae copïau pellach o'r crynodeb gweithredol a'r adroddiad ar gael oddi wrth:

Siân Jones, Ffôn: 01685 729126

E-bost: SJ&LGResearch&Informationunit@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978 0 7504 5368 4